

Cofion

Estynnwn ein cydymdeimlad heddiw â Gwenfyl Jones (Llansannan) yn dilyn marwolaeth ei chwaer yn ddiweddar. Hyderwn y bydd yn adnabod heddwch a thangnefedd Duw yn ystod y dyddiau hyn. Yr ydym hefyd yn cofio am Lyn Bonnett a'r plant (Llanefydd) yn ein gweddïau yn dilyn y brofedigaeth lem o golli gŵr a thad yn gwbl annisgwyl. Estynnwn yr un dyheadau gerbron yr orsedd yn eu hachos hwy hefyd.

Danfonwn ein cofion at Enid Pierce (Llanefydd) sydd yn ysbyty Glan Clwyd tra bod Elsa Evans a Gwenfyl Williams (Llanefydd) yn parhau yn yr Inffirmari. Da deall fod Menna Streeter bellach wedi dychwelyd adref. Cofion hefyd at Celfyn Williams (Groes) dderbyniodd law-driniaeth yn Glan Clwyd yn ystod yr wythnos, yntau bellach adref hefyd.

Llongyfarchiadau i Caryl Jones (Llansannan) a Melfyn ar enedigaeth efeilliaid. Da deall fod y ddau frawd bach yn dod yn eu blaenau, a diolchwn i Dduw amdanynt.

Cofiwch a Sylwch

- Cofiwch adael inni wybod mewn pryd am unrhyw oedfaon dechrau'r flwyddyn.
- Wnaiff y rhai sy'n casglu'r pecynnau o Siop Clwyd sylwi mai ar **Rhagfyr 31ain** y bydd y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ar gael, os gwelwch yn dda?

Hyn ag arall

- Os oes arnoch chi arian imi am y llyfrau – mi fyddwn yn falch sobor o'i gael mor fuan â phosibl!!
- Yn dilyn sawl cais, mi fydd y daith gerdded ar y 29ain yn un ar y gwastad! Mi fyddwn yn mynd o amgylch Llyn Alwen, gan gwrdd yn y maes parcio ger yr argae am 12.30. I'r rhai mwy mentrus, mi obeithiwn fynd am Moel Siabod ar ddydd Llun y 3ydd o Ionawr.

I ddod

- Ar **Ionawr 9fed**, bydd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth yn dod i gymryd llais pob eglwys yn y Fro ynglŷn â'n dymuniad i alw gweinidog. Y
- Yn yr hwyr yn Oedfa'r Fro, mi fydd hi'n gyfarfod gollwng, i arwyddo diwedd fy nhymor yma fel gweinidog. Mi fydd Aneurin yn dweud gair ar ran yr Eglwysi, a byddwn yn croesawu y Parch Hywel Meredydd yma i bregethu.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau



Llais Bro Aled

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd

Dydd Sul, 19^{eg} Rhagfyr 2010

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Mi fydd yna gryn amrywiaeth yn yr arlwy heddiw, a bydd ffocws naturiol ar edrych ymlaen at Wyl y Geni. Gweddïwch am gael profi 'Duw gyda ni'; profi cwmni Iesu – yr Imaniwel, yng nghanol ein hoedfaon ac yng nghanol ein bywydau.

Mae'n siŵr eich bod chi, fel fi, yn adnabod pobl sydd yn methu stopio siarad. A dweud y gwir, mae Sarah yn mynnu fy mod i yn perthyn i'r grŵp bach arbennig hwnnw. Yn aml, ar ôl bod allan yng nghwmni ffrindiau ar fin nos, mi fyddwn yn dod adre' yn y car a Sarah yn nodi nad oedd angen i neb arall ddeud gair tra mod i yn yr ystafell!!! Wel, dw'i wedi bod yn meddwl am y ffaith y bydd y llais bach yma yn tawelu ar ddalen flaen Llais Bro Aled heno. Rwyf wedi bod wrthi ers sbel - tua deunaw mlynedd yn ôl a welaf. Ond, yn ystod y degawd diwethaf, mae hwn wedi dod i law bob wythnos ar tua 46 o wythnosau'r flwyddyn. Mae hynny'n golygu ei fod wedi dod i law 460 o weithiau yn y cyfnod yma!!! Mae hynny yn dipyn o siarad, a rhaid imi ddweud, yr ydych yn ffein iawn efo'ch sylwadau. Pan gyhoeddwyd casgliad o'r myfyrdodau yn y llyfr 'Adnabod' rai blynyddoedd yn ôl, cyflwynais y gyfrol er cof am Brynmor Williams. Roedd ei sylw o dderbyn y papur yn nodweddiadol o sylwadau gwerthfawrogol cymaint. Cofiwch, dwi'n amau fod yna sawl un yn ei ddarllen er mwyn clywed am fy helbulon diweddaraf!! Dyma orffen felly gyda'r un math o beth.

Ddoe diwethaf, dyma benderfynu fod angen golchi'r car. Hen bryd 'fyd, efo'r holl halen a mwd oedd arno. Roedd plant wedi dechrau ysgrifennu sylwadau yn y baw ar y cefn yn awgrymu y buasai tamed o sebon a dŵr yn gwneud lles. Felly, dyma fynd at y gwaith, ac mae yna aelodau gafodd ymweliad ddoe yn medru tystio i ogoniant lliw arian y car. Ond dim ond rhai! Mae bagad gofalon y bugail yma'n golygu fod lonydd y Fro, o'u teithio, yn newyddion drwg i gar glân. Tebyg y bydd yna sylwadau pellach yn cael eu hysgrifennu ar y mwd newydd sydd wedi casglu erbyn heddiw.

Mae hyn yn arwain fi yn dwt iawn at neges ganolog geni Crist. Pam fod Iesu wedi dod? Pan dathlu ei eni? Wel, mae'r cliw yng nghyhoeddiad yr angel i Joseff: "...a gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau." Dod i lanhau wnaeth yr Iesu, dod i olchi ei bobl, i'w cyflwyno yn ddi-fai gerbron ei Dad "... yn ei llawn ogoniant, heb fod arni frycheuyn na chrychni na dim byd o'r fath, iddi fod yn sanctaidd a di-fai." Gwaith Iesu yw delio gyda phechod, a gwneud hynny â'i waed ei hun. Nid golchi ein hunain, nid delio â'n pechod ein hunain yw cynnig yr Efengyl. Mae'r newyddion da yma'n dweud fod Iesu am wneud hyn drosom. Ac mae hyn yn rhywbeth y mae'n parhau i wneud ar ôl i ni ddod at Iesu. Pam? Oherwydd yr ydym yn parhau i bechu, yn parhau i fyw yn anufudd. Ond mae gwerth ei waith yn un parhaus. Mae loan yn dweud hyn; *Fy mhlant, yr wyf yn ysgrifennu'r pethau hyn atoch i'ch cadw rhag pechu. Ond os bydd i rywun bechu, y mae gennym Eiriolwr gyda'r Tad, sef Iesu Grist, y cyfiawn; ac ef yw'r lawn dros ein pechodau...*

Cyhoeddiadau

Y Fro

Dydd Sul, Rhagfyr 19eg Ni fydd **Oedfa i'r Fro**. (Bydd yr oedfa'r hwyr nesaf i'r Fro ar Ionawr 9fed.)
Dydd Sul, Rhagfyr 26ain Cynhelir **Oedfa Gymun i'r Fro** yn Llanfair Talhaiarn am 10.00.
Dydd Mawrth, Rhagfyr 28ain **Swper Adnabod** yn Ffestri Llansannan am 7.30. Mwy o wybodaeth gan **Sarah Morris (870601)**.
Dydd Mercher, Rhagfyr 29ain **Taith Gerdded** o amgylch Cronfa'r Alwen. Cwrdd yn y maes parcio ger yr argae am 12.30.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Gwasanaeth Nadolig i'r teulu a pharti i ddilyn i bawb yn Neuadd Goffa Llanfair Talhaiarn am 11.00.
Yng Nghefn Meiriadog, bydd Ysgol Sul am 10.30 a bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa am 2.00.
Hefyd, bydd Cyngerdd Nadolig Capel Cefn Meiriadog (dan olau kannwyll) gydag ENFYS am 8-00. Mae'r cyn-docynnau mynediad yn dderbyniol.
Mercher Parti Plant yr Ysgol Sul, Ymweliad Siôn Corn, a Ras Chwilod y Gymdeithas Lenyddol **am 6.00** yn Ffestri Capel Cefn Meiriadog.
Ionawr zil Bydd Meirion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00.

Llansannan

Sul yma Bydd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr oedolion yn y Ffestri ac ymarfer i'r plant yn y capel am 10.00, a bydd Gwasanaeth Nadolig y Plant yn y capel am 3.00, gyda pharti i ddilyn yn y Ganolfan.
Llun Mae'r Gymdeithas wedi trefnu Gwasanaeth Carolau yn Eglwys St Sannan am 7.30.
Mawrth Cinio Nadolig Jangl am 12.00.
Sadwrn Gwasanaeth Plygain wedi ei drefnu gan y Gymdeithas yng Nghapel Bethania am 7.00 y bore.
Ionawr zil Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa am 10.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd paned i ddilyn, ac yna cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
Ionawr zil Bydd Aneurin yn arwain oedfa'r daith yn Saron am 10.00.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yn Nantglyn am 10.00 ac yn Nhanyfron am 2.00.
Ionawr zil Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant yn y Groes am 10.30 a pharti i ddilyn. Bydd Meirion yn arwain oedfa'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00.
Sul nesa Cynhelir Gwasanaeth Carolau Undebol yn Eglwys Henllan am 11.00.
Ionawr zil Bydd Aneurin yn arwain oedfa'r daith yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Gwasanaeth Nadolig y Plant yng Nghefn Berain am 10.30 a pharti i ddilyn. Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Llanefydd gan blant yr Ysgol Sul (ond i bawb) am 11.00 ac yna, i ddilyn, bydd Cinio/Parti Nadolig yn y Neuadd.
Mi fydd gwasanaeth Carolau yn yr Eglwys am 6.30 o dan nawdd Pwyllgor Cymdeithas y Beiblau.
Gwener Gwasanaeth Plygain yn Llanefydd am 8.00 yr hwyr.
Ionawr zil Bydd Meirion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau ar gyfer dechrau'r flwyddyn newydd i:
Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher, Rhagfyr 29ain, fan bellaf.